O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2020 Rhif 553 (Cy. 126)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cilfannau rhwng Porthaethwy a Chyffordd 8A yr A55 yng Ngharreg Brân, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020

Gwnaed	*22 Mai 2020*
Yn dod i rym	*28 Mai 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd tra bo mesurau cyfyngu COVID-19 mewn grym.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cilfannau rhwng Porthaethwy a Chyffordd 8A yr A55 yng Ngharreg Brân, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 28 Mai 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y cyfnod cau" ("*closure period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 28 Mai 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r cilfannau ar gefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi rhwng Porthaethwy a Chyffordd 8A yr A55 yng Ngharreg Brân yn Sir Ynys Môn fel a ganlyn;

i. y gilfan sydd 340 o fetrau i'r dwyrain o Drosbont Carreg Brân yr A5;

ii. y gilfan sydd 530 o fetrau i'r dwyrain o Drosbont Carreg Brân yr A5.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Mai 2020

Nicci Hunter
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru